**Rhif: WG51343**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

**YMGYNGHORIAD AR FESURAU RHEOLI COCOS 2025**

Newidiadau arfaethedig i'r ffi am drwydded pysgota am gocos, terfynau dalfa dyddiol, sachau cocos a chyflwyno tagiau adnabod 2025–2026

Dyddiad cyhoeddi: 17 Mawrth 2025

Yr hyn mae angen ei wneud: Ymatebion erbyn 31 Mawrth 2025

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

## Trosolwg

O dan ddarpariaethau Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, [Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU] gall Llywodraeth Cymru gyflwyno mesurau rheoli addasol i helpu i warchod pysgodfa gocos Cymru ac i godi ffi trwydded. Rydyn ni'n cynnig diwygio'r ffordd mae pysgodfeydd cocos yn yr ardal benodedig yn cael eu rheoli yn ystod cyfnod trwyddedu 2025/26 ac i godi ffi trwydded fel a ganlyn:

1. **Cynyddu'r ffi am drwydded pysgota am gocos** – cynyddu'r ffi flynyddol am drwydded pysgota am gocos o £250 i £350 i sicrhau bod costau llawn yn cael eu hadennill.

2. **Terfyn dalfa dyddiol safonol** – cyflwyno terfyn dalfa dyddiol o 300kg ar gyfanswm y cocos y gall pob casglwr sydd â thrwydded eu cymryd o'r ardal benodedig. Map o'r ardal pysgota am gocos benodedig: Cymru | LLYW.CYMRU. Hwn fydd y terfyn dalfa dyddiol safonol a ddefnyddir ar gyfer pob gwely pan fyddan nhw'n agor, a gall gael ei amrywio, i fyny neu i lawr, at ddibenion rheoli pysgodfeydd yn ystod y cyfnod trwyddedu, yn amodol ar ymgynghoriad lle bo'n rhesymol ymarferol.

3. Safoni sachau cocos – gofyniad i gasglwyr cocos ddefnyddio sachau o faint safonol wrth gasglu cocos yn yr ardal benodedig, sy'n mesur 52cm x 85cm (tua 50kg o gocos). Rhaid cario'r cocos a gesglir yn y sachau hyn i'r man glanio ar berimedr yr ardal benodedig. Pysgota cocos: mapiau ardal penodol | LLYW.CYMRU

Mae'n ofynnol bod yn rhaid i bob deiliad trwydded fod yn bresennol i wirio eu dal yn y man lle mae eu cocos yn cael ei dynnu o'r llong sy'n cludo eu dal i'r lan, a nodi eu cocos yn unol â hynny. Nid yw llwytho ar long ar y gwelyau cocos yn golygu glanio, gall unrhyw ddeiliaid trwydded nad ydynt yn bresennol ar laniad fod yn destun camau gorfodi.

Felly, *yn gysylltiedig* â phwynt 2 uchod, pan fydd y terfyn dalfa dyddiol o 300kg yn berthnasol, gall casglwyr sydd â thrwydded gymryd hyd at chwech o sachau o'r dimensiynau hyn o gocos bob dydd; fodd bynnag, os yw'r terfyn dalfa dyddiol yn cael ei amrywio fel y disgrifir ym mhwynt 2 uchod, lle bo'n rhesymol ymarferol, bydd casglwyr sydd â thrwydded yn cael ei ymgynghori.

4. Tagiau ar sachau – gofyniad i unrhyw sach y mae casglwr sydd â thrwydded yn ei ddefnyddio (gweler pwynt 3 uchod) fod â thag (wedi'i roi gan Lywodraeth Cymru) wedi'i glymu yn sownd wrth linyn cau'r sach, sy'n dangos yn glir rif trwydded unigryw'r casglwr.

Cynhelir yr ymgynghoriad gyda deiliaid trwyddedau a rhanddeiliaid perthnasol eraill am ddwy wythnos hwn rhwng 17 Mawrth a 31 Mawrth 2025.

## Sut i ymateb

Mae croeso ichi anfon ymatebion drwy e-bost: pysgodfeydd@llyw.cymru.

Wrth anfon e-bost, rhowch y geiriau 'Ymgynghoriad Cocos 2025' yn y blwch pwnc.

Mae darpariaeth hefyd i ofyn am gopïau caled i unrhyw un y byddai'n well gennych ymateb i ni gan ddefnyddio'r copi caled. Os byddai'n well gennych gopi caled o'r ddogfen, cysylltwch a ni drwy'r e-bost hwn: pysgodfeydd@llyw.cymru.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Pysgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

This document is also available in English.

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: https://ico.org.uk/

## Ffi Trwyddedau Pysgota am Gocos

Nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i godi'r ffi am drwyddedau pysgota am gocos yng Ngorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024. Mae hyn yn adlewyrchu costau gweinyddu a rheoli'r bysgodfa, gan gynnwys arolygon asesu stoc, ond heb gynnwys gorfodi.

Mae adennill costau a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru wrth reoli'r bysgodfa gocos yn unol ag egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru 2016.

### Y Fethodoleg i bennu'r Ffi am Drwydded Pysgota am Gocos

Yn ystod y cyfnod trwyddedu cyntaf, roedd Llywodraeth Cymru yn codi ffi o £250 am drwydded pysgota am gocos. Cafodd y ffi ei chyfrifo ar sail gweithgarwch trwyddedu a rheoli yn y gorffennol. Yn ystod y cyfnod trwyddedau cyntaf 2024/25, mae swyddogion wedi cofnodi'r costau'n gywir ochr yn ochr â chyflwyno system drwyddedu ddigidol newydd i wella effeithlonrwydd er mwyn gallu adennill costau yn llawn.

O gyfnod trwyddedu 2025–2026 bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i  sicrhau bod y costau'n cael eu cyfrifo'n gywir a'u bod yn gymesur. Byddwn ym ceisio adennill costau llawn, wrth hefyd geisio sicrhau effeithlonrwydd a lleihau costau i bysgotwyr cymaint ag y bo modd.

Mae'r cynnydd yn ffi’r drwydded o £250 i £350 wedi cael ei gyfrifo i adlewyrchu costau gweinyddu a rheoli'r bysgodfa, gan gynnwys arolygon asesu stoc. Mae'r cyfrifiad hwn yn cymryd y bydd 229 o drwyddedau yn cael eu cyhoeddi yng nghyfnod trwyddedu 2025/26, yn debyg i gyfnod trwyddedu 2024/2025.

Cyfrifir ffioedd yn y dyfodol yn seiliedig ar y galw a'r costau a byddan nhw'n cael eu haddasu yn unol â hynny.

## Terfyn Dalfa Dyddiol

Y Terfyn dalfa dyddiol yw cyfanswm y cocos y caiff casglwr unigol sydd â thrwydded eu cymryd mewn un diwrnod. Pwrpas y Terfyn dalfa dyddiol yw gwarchod y stoc cocos ac atal gorbysgota a sicrhau bod y bysgodfa'n gynaliadwy.

### Y Terfyn Dalfa Dyddiol ar gyfer Cyfnod Trwyddedu 2025–2026

Bydd Terfyn dalfa dyddiol o 300kg yn berthnasol i bob gwely cocos agored oni bai bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn hysbysu fel arall.

Rydyn ni'n cynnig cyflwyno Terfyn dalfa dyddiol o 300kg ar gyfer pob pysgodfa gocos drwy amodau trwydded i leihau'r risg o orbysgota. Yn gysylltiedig â hyn, rydyn ni hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i gasglwyr cocos ddefnyddio sachau o faint safonol i helpu i wirio cydymffurfedd . Er mai'r bwriad yw mai 300kg fydd y Terfyn dalfa dyddiol 'diofyn', mae'n bosibl y bydd yn cael ei amrywio, i fyny neu i lawr, at

ddibenion rheoli pysgodfeydd i reoli'r gyfradd y cymerir y gornifer y gellir eu cynaeafu sicrhau cydymffurfiaeth ag Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.Yn ogystal â sachau safonol, mae swyddogion gorfodi morol wedi gofyn am ffordd o adnabod dalfeydd pob casglwr unigol i sicrhau cydymffurfedd.

## Safoni sachau cocos

Rydyn ni'n bwriadu mabwysiadu maint sach a phwysau safonol ar gyfer pob deiliad trwydded yn 2025. Byddai sach safonol yn cysoni'r dull ar gyfer pob pysgotwr yng Nghymru. Byddai hyn yn cynorthwyo y gallai ein swyddogion gorfodi i wirio cydymffurfiaeth gyda y terfyn dalfa dyddiol i sicrhau nad eir y tu hwnt i'r gwarged y gellir ei gynaeafu yn unol ag Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd.

Rydyn ni'n argymell bod casglwyr yn defnyddio sachau moron wedi'u gwehyddu 52cmx85cm, i gludo'r cocos a gesglir gyda hyd at 50kg o gocos fesul sach. Felly, ochr yn ochr â gweithredu terfyn dalfa dyddiol o 300kg, rydyn ni'n argymell y gall pob casglwr gymryd hyd at chwe sach (52cmx85cm) o gocos bob dydd.

Byddai swyddogion gorfodi yn gallu nodi pwysau dalfeydd i ategu data datganiadau dalfeydd dyddiol. Bydd hyn yn helpu i orfodi'r terfyn dalfa dyddiol, gan y bydd yn hawdd nodi'r meintiau wedi'u casglu o nifer y sachau a lenwir. Ar ben hynny, os oes angen newid y terfyn dalfa dyddiol, bydd nifer y sachau y gellir eu cymryd yn cael eu hamrywio drwy amodau trwydded.

## Tagio sachau cocos

Rydyn ni'n cynnig mabwysiadu system tagio lle bydd pob deiliad trwydded yn gosod tag ar ei sachau cocos ar y gwelyau cocos, gyda rhif ei drwydded wedi'i farcio'n glir ar y sach. Ar hyn o bryd mae sachau cocos yn cael eu stacio ar y gwelyau, sy'n ei gwneud yn anodd i'n swyddogion gorfodi nodi i bwy mae'r cocos yn perthyn. Bydd cysylltu tag yn gwneud adnabod sachau'n llawer symlach a bydd yn galluogi ein swyddogion gorfodi i nodi i bwy mae pob sach cocos yn perthyn. Bydd y tagiau yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru a'r gost yn cael ei chynnwys yn y ffi am y drwydded.

### Sut i ymateb

Mae croeso ichi anfon ymatebion drwy e-bost at pysgodfeydd@llyw.cymru.

Wrth anfon e-bost, rhowch y geiriau 'Ymgynghoriad Cocos 2025' yn y blwch pwnc.